Cylch Gorchwyl - Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Pwrpas

1. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr) drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli, ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

2. Y Bwrdd bydd yn diffinio ac yn cyfathrebu parodrwydd y cwmni i fentro, a sut mae'n rheoli risgiau allweddol. Cyfrifoldeb y Bwrdd fydd rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, caiff y broses o oruchwylio hyn ei dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Rôl

3. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar:
   - y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu;
   - y ffordd y mae'r sefydliad yn ymdrin â rheoli risg, a bodloni ei hun ar y ffordd y caiff risg ei reoli o fewn y sefydliad;
   - prosesau llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad,
   - polisïau atal twyll, prosesau chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer archwiliadau arbennig o fewn y sefydliad;
   - digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgaredd archwilio, gan gynnwys y materion hynny a nodwyd gan archwiliad allanol; a
   - digonolrwydd trefniadau o fewn Cymwysterau Cymru ar gyfer archwiliad mewnol, archwiliad allanol a materion llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys paratoi adroddiad ariannol ac adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

4. Bydd hefyd yn goruchwylio ailgaffael yr archwiliwr mewnol, (yn amodol ar gadarnhad gan y Bwrdd).

Aelodaeth a Phresenoldeb

5. Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw:
   - Paul Croke, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd - Cadeirydd
   - Angela Maguire-Lewis, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
   - Isabel Nisbet, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
   - Rheon Tomos, Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

6. Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol fynychu'r pwyllgor ond ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor. Efallai y bydd angen i aelodau eraill o staff fynychu o bryd i'w gilydd hefyd i gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau.

7. Gwahoddir cynrychiolwyr o ddarparwr yr archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

8. Y **cworwm** ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fydd dau aelod gan gynnwys y cadeirydd.

9. Gwahoddir Uned Noddi Cymwysterau Cymru, fel cynrychiolwyr Gweinidogion Cymru, i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, i fynychu fel **arsylwyr**, gan gydnabod y bydd rhai materion i'w trafod lle y gall fod yn amhriodol i staff Llywodraeth Cymru fod yn bresennol. Ni fydd gan swyddogion yr Uned Noddi unrhyw swyddogaeth yn y cyfarfodydd hyn heblaw am werthuso'r priodoldeb y cynhelir gweithgarwch a gwariant Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhannu'r agendâu ar gyfer pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyda'r Uned Noddi, a all wneud cais i fynychu cyfarfod perthnasol, neu i adolygu cofnodion unrhyw gyfarfod.

Cefnogaeth

10. Caiff y pwyllgor ei **gefnogi gan** y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, sef prif bwynt cyswllt y pwyllgor gyda'r sefydliad a'r archwilwyr allanol - Swyddfa Archwilio Cymru, a fydd yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, hwyluso'r broses o sefydlu'r pwyllgor, a rhoi cyngor a gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor (yn enwedig mewn perthynas â gweithgarwch risg ac archwilio'r sefydliad) mewn cyfarfodydd a rhwng cyfarfodydd, gan sicrhau y caiff trefniadau effeithiol eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredin ac arbennig.

Modus Operandi

11. Bydd y pwyllgor yn derbyn **adroddiadau fel sy'n briodol**, er enghraifft gan brif swyddog gweithredol y sefydliad. Bydd yn atebol i'r Bwrdd trwy ei gofnodion (a gyflwynir gan y Cadeirydd i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.

12. Cynigir y bydd y Pwyllgor yn cwrdd b**edair gwaith y flwyddyn** mewn modd digon amserol i gydlynu'r broses o baratoi datganiad cyfredol iawn ar brosesau archwilio a sicrhau risg y sefydliad i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

13. Ym mhob cyfarfod, bydd yn archwilio'r prosesau canlynol ar gyfer y sefydliad:

    - llywodraethu corfforaethol
    - rheolaeth ac adroddiadau ariannol
    - rheolaeth fewnol
    - sicrhau a rheoli risg

14. Ar yr adegau priodol, bydd hefyd yn ystyried prosesau archwilio mewnol ac allanol, a'i berfformiad ei hun, a gellir cynnal sesiynau preifat nad ydynt yn cynnwys pobl nad ydynt yn aelodau.

15. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod ar wahân gyda chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Darparwr Archwilio Mewnol i drafod unrhyw faterion penodol neu faterion mwy cyffredinol y gall y ddau fod am eu codi.